CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

# Galwad Agored - Comisiwn Ysgolion Creadigol GwyrddNi

## Cyfle Anhygoel!

***Ydych chi'n***: Artist? Cerddor? Bardd? Animeiddiwr? Llenor? Dramodydd? Ymarferydd Ddawns? Storïwr? Gwneuthurwr Ffilmiau? Codiwr? Gwneuthurwr gemau? Crefftwr? Neu unrhyw fath arall o ymarferydd creadigol?

Neu'n: Grŵp o unrhyw un/rhai o'r uchod?

***Ydych chi'n gallu gweithio gyda phlant, pobl ifanc, ac ysgolion?***

A gyda'r gymuned?

***Ydach chi'n credu ym mhŵer cymunedau i ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu?***

Hoffech chi helpu plant a phobl ifanc i ddarganfod a chyfathrebu neges/euon am yr hinsawdd i'r gymuned?

**Os hynny dyma'r comisiwn i chi!**

(Os ydy sgwrs yn haws 'na darllen mae croeso i chi gysylltu â Sara ar 07536974982 i fynd drwy'r manylion isod)





# Y Comisiwn





**Wedi llwyddiant Ysgolion Creadigol GwyrddNi llynedd rydym yn chwilio am ymarferydd/wyr i gydweithio a phlant ysgol neu bobl ifanc yn ardaloedd GwyrddNi i greu ar hyd thema 'Gweithredu Hinsawdd Gymunedol'.**

Bydd yr hyn yr ydych yn ei greu ar y cyd yn cyfrannu at weithredu hinsawdd leol drwy rannu neges gydag aelodau cymuned yr ardal. Mae llais pobl yn eu cymuned yn allweddol i holl waith GwyrddNi ac felly llais y plant neu bobl ifanc fydd yn ganolog i'r neges sy'n cael ei gyfleu a sut caiff ei gyfleu.

Yn ogystal â chydweithio a'r plant neu'r bobl ifanc i greu'r 'cynnyrch terfynol' bydd y broses greadigol rydych yn ei hwyluso yn eu helpu i ganfod eu llais a'u neges am y thema dan sylw. **Rydym yn agored i unrhyw ymarfer creadigol gall gyfrannu at gyrraedd y nod hwn.**

*Er enghraifft (dim ond enghreifftiau ydy'r rhain cofiwch!): ydy'r plant/bobl ifanc yn creu* bilboard *anferthol i hysbysebu eu neges, neu ydynt yn creu cyfres o* memes*, ffilmiau byrion, neu animeiddiadau i'w rhannu, neu efallai creu darnau celf sy'n herio, neu greu profiad ymdrochol i aelodau o'r gymuned, neu gyfres o bodlediadau, neu gyfansoddi cân, cerddi neu stori i'w perfformio'n fyw neu ar ffilm, neu greu gêm gyfrifiadurol, neu crefftio eitemau i'w harddangos neu'i defnyddio, neu gyfuniad o rhai o'r uchod?*

**Rydym yn agored i'ch syniadau chi a syniadau'r plant.** Yr hyn ofynnwn yw mai llais a dyheadau'r plant sy'n ganolog, fod y gwaith yn uchelgeisiol (o fewn cyfyngiadau'r amser ac adnoddau sydd gennym), a'i fod yn bwerus yn cyfathrebu'r neges.

**Rydym yn agored i weithio gydag ymarferydd unigol neu grŵp o ymarferwyr**. Rydym hefyd yn agored i weithio gyda grwpiau cymunedol sy'n weithredol yn y maes, ond mae angen rhywun sy'n arwain neu'n aelod o'r grŵp sy'n gallu gweithredu ar lefel proffesiynol i arwain a hwyluso'r gwaith.

**Dyma’r cyfleoedd sydd ar gael:**

| Ardal GwyrddNi | Nifer y cyfleoedd |
|---|---|
| **Dyffryn Peris** | x1 ysgol |
| **Dyffryn Nantlle** | x1 ysgol |
| **Dyffryn Ogwen** | x1 ysgol |
| **Bro Ffestiniog** | O bosib elfen lai o waith mewn cydweithrediad ag ymarferydd arall mewn x1 ysgol |
| **Pen Llŷn** | x1 grwp o bobl ifanc gall fod yn fregus |




**Rydym yn agored i geisiadau i weithio oddi mewn i un neu fwy o ardaloedd GwyrddNi.**

Rydym wrthi’n adnabod ysgolion/grwpiau o fewn ardaloedd GwyrddNi sy’n awyddus ac yn barod i gydweithio a ni. Byddwn yn hwyluso sgyrsiau rhyngoch chi a’r ysgol/ion a/neu partneriaid er mwyn trafod a chytuno ar gynllun gwaith sy’n gweddu pawb.

# Amserlen

Dyma amserlen fras ar gyfer y prosiect. Byddwn yn trafod dyddiadau penodol gyda chi.

| | |
|---|---|
| **Erbyn Canol Ionawr** | Ymarferwyr yn datgan diddordeb - CV, cadarnhad o DBS/yswiriant, a pharagraff byr yn esbonio pam eich bod chi â diddordeb yn y cynllun. |
| **Ionawr** | GwyrddNi'n cynnal sesiynau am newid hinsawdd a sesiwn trafod syniadau cychwynnol gyda'r grwpiau plant/bobl ifanc sy'n cymryd rhan. |
| **Cychwyn Chwefror** | Y plant neu bobl ifanc yn hysbysebu eu syniadau i'r ymarferwyr sydd wedi datgan diddordeb. |
| **Chwefror** | Ymarferwyr yn ymgeisio am brosiectau penodol drwy rannu syniadau ynglŷn â sut y gallent ymateb i syniadau'r plant/bobl ifanc. |
| **Cychwyn Mawrth** | Cyfweliadau - os angen. |
| **Erbyn diwedd Mawrth** | (Gyda thâl) Sesiwn briffio Ymarferwyr a chyfarfod/ydd cynllunio rhwng yr ymarferydd, yr ysgol neu bartneriaid a GwyrddNi. |
| **Yn ystod Ebrill, Mai Mehefin** | Ymarferydd yn yr ysgol gyda'r plant, neu gyda'r grwp bobl ifanc, yn creu ac yn rhannu'r neges gyda'r gymuned. |
| **Gorffennaf** | Gwerthuso'r broses ac (os yn addas) trafod datblygiadau pellach. |

# Cydweithio

***Gall staff GwyrddNi gydweithio â chi a'ch cefnogi yn y ffyrdd canlynol:***

| |
|---|
| **1. Hwyluso sgwrs rhyngoch chi, ni, a'r ysgol/partneriaid er mwyn cynllunio'r gwaith.** |
| **2. Hyfforddiant i chi ar newid hinsawdd a gweithredu hinsawdd gymunedol.** |
| **3. Cynorthwyo gyda gwneud cysylltiadau a sicrhau adnoddau pellach yn y gymuned os oes angen.** |
| **4. Cynorthwyo gyda rhannu'r neges os oes angen.** |
| **5. Pwynt cyswllt i drafod cynnydd, cyfrannu at oresgyn heriau ayyb.** |
| **6. Arweiniad ar gofnodi a gwerthuso'r gwaith.** |

***Dyma fyddwch chi yn ei gynnig:***

| | |
|---|---|
| 1. | **Parodrwydd i gyd-gynllunio'r gwaith gyda ninnau a'r ysgol/ion/grŵp.** |
| 2. | **Parodrwydd i fynychu hanner diwrnod o hyfforddiant (gyda thâl) ar newid hinsawdd ac ethos GwyrddNi.** |
| 3. | **Hwyluso proses o gyd-greu a chyfathrebu neges am weithredu hinsawdd gymunedol gyda'r plant.** |
| 4. | **Cyd-weithio gyda'r athro/awes ddosbarth a'r ysgol neu arweinwyr grŵp, a lle'n briodol swyddogion GwyrddNi a'r gymuned, i gyflawni hyn.** |
| 5. | **Parodrwydd i gyd-weithio er mwyn oresgyn unrhyw heriau.** |
| 6. | **Bwriad i gyd-greu neges a dull o'i gyfathrebu a'r gymuned sy'n uchelgeisiol (o fewn ffiniau'r adnoddau ac amser sydd ar gael).** |
| 7. | **Cofnodi a gwerthuso'r gwaith wrth fynd ymlaen (bydd arweiniad ar hyn).** |
| 8. | **Ymagwedd broffesiynol ar bob adeg.** |

# Ymwybyddiaeth am yr hinsawdd




Fel y gwelwch, er ein bod ni'n chwilio am ymarferwyr sydd â rhywfaint o ymwybyddiaeth am newid hinsawdd nid oes rhaid meddu ar wybodaeth na dealltwriaeth fanwl.

Mae chwilfrydedd a  brwdfrydedd am sut i ymateb i her yr hinsawdd ac i syniadau'r plant/bobl ifanc yn nodweddion llawer pwysicach inni. **Bydd sesiwn cymhwyso/hyfforddiant hanfodol (gyda thâl) ar newid hinsawdd ac ethos GwyrddNi wrth gychwyn ar y gwaith.**

# Allbynnau



- Plant neu bobl ifanc sydd wedi eu hysbrydoli a'u hegnio, sy'n teimlo'n rymusiedig ac wedi eu harfogi drwy'r broses greadigol.
- Neges glir sy'n crynhoi llais y plant neu bobl ifanc ar hyd y thema.
- Cynnyrch creadigol sy'n rhannu llais a neges y plant gyda'r gymuned.
- Aelodau o'r gymuned (a chymuned gyfan os yn bosib) sydd wedi eu hysgogi i dalu sylw ac ymateb i newid hinsawdd mewn un ffordd neu'i gilydd.
- Cofnod o'r broses a chofnod o ymateb y plant/bobl ifanc, athrawon/gweithwyr, chithau, ac aelodau o'r gymuned at y broses at ddibenion gwerthuso.

Dyhëwn gydweithio ag ymarferwyr sy'n uchelgeisiol am yr hyn sy'n bosib ei gyflawni o fewn y ffiniau amser ac adnoddau sydd ar gael.

# Tâl

Rydym yn cynnig £300/diwrnod. Bydd 5 diwrnod o waith yn ynghlwm a bob ardal (heblaw Bro Ffestiniog). Mae 5 ardal mewn cyfanswm.

**Fel y nodwyd uchod mae croeso i chi datgan diddordeb am y gwaith oddi mewn i un, sawl un neu bob un o'r pum ardal.** Yn amlwg os ydych yn gweithio mewn mwy nag un ardal dim ond unwaith fydd angen derbyn y sesiwn cymhwyso/hyfforddiant.

Rydym yn rhagweld y gwaith a'r tâl **<u>fesul ardal</u>** yn cael ei ddyrannu'n fras fel a ganlyn:

| **Diwrnod** | **Gweithred** | **Tâl** |
|---|---|---|
| **0.5** | Diwrnod cymhwyso/hyfforddiant | £150 |
| **0.5** | Diwrnod cynllunio gyda'r ysgol/grŵp | £150 |
| **3.5** | Diwrnod hwyluso a chreu gyda'r plant/bobl ifanc | £1050 |
| **0.5** | Diwrnod rhannu'r neges âr gymuned gyda'r plant/bobl ifanc | £150 |
| Cyfanswm fesul ardal = **5 diwrnod** | Yn amlwg gall y dyraniad amser o fewn y 5 diwrnod amrywio rhywfaint yn ddibynol ar anghenion y prosiect. | Cyfanswm fesul ardal = **£1500** |

# Costau eraill

- Bydd cyfraniad ychwanegol at gostau teithio os bydd angen.
- Bydd cyllid rhesymol ond nid enfawr ar gyfer adnoddau a/neu logi gofod cymunedol os bydd angen.
- Yn ddibynol ar yr hyn gaiff ei gynllunio mae'n bosib fydd mynediad at gyllid pellach ar gyfer adnoddau. Byddwn yn trafod hyn wrth gynllunio'r gwaith.

# Gofynion ymarferol

| |
|---|
| 1. Bydd angen cynnal y gwaith yn ystod y cyfnod Ebrill, Mai a/neu Mehefin 2026. |
| 2. Bydd angen cynnal y gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 3. Bydd angen DBS cyfredol arnoch - os nad oes gennych un o rain yn barod cysylltwch, mae'n bosib gallwn helpu gyda hyn. |
| 4. Bydd angen gallu cyrraedd lleoliad y gwaith mewn da bryd yn y bore. |



## Er mwyn datgan diddordeb cysylltwch â sara@deg.cymru gyda:

- **Eich CV** ac enghreifftiau o waith tebyg blaenorol
- **Cadarnhad o DBS/Yswiriant**
- **Paragraff yn esbonio pam fod gennych ddiddordeb yn y prosiect.**
- **Nodyn i ddweud am ba ardaloedd rydych yn datgan diddordeb (croeso i chi nodi un, sawl un, neu bob un).**

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn datganiadau o ddiddordeb yw hanner dydd ar y 16/01/26**

Bydd y plant/bobl ifanc (gyda'n help ni) yn hysbysebu cyfleoedd penodol i bawb sydd wedi datgan diddordeb cychwyn Chwefror.

Os hoffech drafod yr uchod yn ymhellach cysylltwch â Sara ar sara@deg.cymru neu 07536974982 am sgwrs.

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

**Am GwyrddNi:**







Mudiad gweithredu ar newid hinsawdd yw GwyrddNi, sy'n uno chwe menter gymdeithasol lwyddiannus yng Ngwynedd. Y chwe sefydliad sy'n ffurfio GwyrddNi yw: Datblygiadau Egni Gwledig (DEG); Cyd Ynni; Partneriaeth Ogwen; Cwmni Bro Ffestiniog; Yr Orsaf ac Oriel Plas Glyn y Weddw.



Credwn mai'r bobl orau i lunio dyfodol cymuned yw'r rhai sy'n byw yno; pobl sy'n adnabod eu bro, eu cymdogion, hanes yr ardal a beth yw ei phrif anghenion a'i hasedau cryfaf.

***Gweithredwn yng nghymunedau Dyffryn Peris, Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle, Bro Ffestiniog a Phen Llŷn.***

Yn ystod ein cyfnod cychwynnol cyfranogodd 182 o oedolion a 269 o blant i Gynulliadau Cymunedol ar yr Hinsawdd yn y pum ardal. Cyfle i bobl ddod at ei gilydd i wrando, dysgu, rhannu, siarad a chynllunio, cyn cytuno ar argymhellion neu weithredoedd yw Cynulliad Cymunedol. Un o ganlyniadau'r cynulliadau oedd pum Cynllun Gweithredu Hinsawdd Gymunedol. Gallwch weld y rhain fan hyn:

https://www.gwyrddni.cymru/cynulliadau-cymunedol-gwyrddni/

Fu plant a phobl ifanc y pum ardal yn cyfrannu at ffurfio’r cynlluniau gweithredu, gan ddefnyddio’r hyn yr oeddent wedi dysgu drwy raglen addysg GwyrddNi i gyfranogi mewn cynulliadau plant a phobl ifanc a chyflwyno eu canfyddiadau i’r cynulliadau cymunedol.




Cafodd blaenoriaethau a syniadau’r plant a phobl ifanc eu hystyried ochr yn ochr â syniadau’r oedolion a chanfyddir nifer ohonynt yn y cynlluniau gweithredu terfynol.

Rydym yn bellach mewn cyfnod gweithredu gyda staff a phartneriaid GwyrddNi’n gweithio i gefnogi cymunedau GwyrddNi i wireddu eu cynlluniau gweithredu hinsawdd gymunedol. Mae gwaith addysg GwyrddNi’n adlewyrchu hyn.

**Gwefan:** [www.gwyrddni.cymru](www.gwyrddni.cymru)
**Facebook:** [www.facebook.com/gwyrddni](www.facebook.com/gwyrddni)
**Instagram:** [www.instagram.com/gwyrddni_](www.instagram.com/gwyrddni_)
**YouTube:** [https://www.youtube.com/channel/UCfPDRqU76q6mi-eLuMU3zZg](https://www.youtube.com/channel/UCfPDRqU76q6mi-eLuMU3zZg)

*Cydnabyddir cefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru i'r cynllun yn ardal Pen LLŷn drwy brosiect FFYNNU Oriel Plas Glyn y Weddw.*

*Please note: This is an advert for a contract where the ability to communicate through the medium of Welsh is essential.*